

**GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (DIWYGIO RHIF
xx) GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) 2013 202-**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel “y Cyngor”) sef yr Awdurdod Prifffyrdd ar gyfer Maesteg yn bwriadu gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer ei bwerau dan Adrannau 1, 2, 3, 4, 32, 35, 124 a Rhan IV o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (“y Ddeddf”) a Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, a fydd yn diwygio'r cyfyngiadau a ganlyn yng **NGORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)(GORFODI SIFIL) 2013 (“Gorchymyn 2013”)** fel y'i diwygiwyd, drwy ddirymu Plan Gorchymyn **AG18 DIW 0 (01/04/2013)** a mewnosod y Plan Gorchymyn diwygiedig **AG18 DIW 1** a fydd yn cyflwyno gwaharddiad ar lwytho a dadlwytho unrhyw bryd yn unol â'r manylion yn yr atodlen isod.

Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd gan gynnwys y Gorchymyn arfaethedig, y Planiau a Datganiad o Resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn ar gael yn rhad ac am ddim drwy gysylltu â traffictransportation@bridgend.gov.uk neu drwy ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Ffôn: 01656 643643 (dyfynnwch y cyfeirnod cyfreithiol TRA001-1322/JPD) neu oddi wrth Lyfrgell Maesteg, North's Lane, Maesteg, CF34 9AA yn ystod yr oriau a ganlyn: dydd Llun 9.15am-1pm a 2pm-6pm, dydd Mawrth 9.15am-1pm a 2pm-5pm, dydd Mercher 9.15am-1pm, dydd Iau 9.15am-1pm a 2pm-5pm, dydd Gwener 9.15am-1pm a 2pm-5pm, dydd Sadwrn 9.15am-1pm a 2pm-5pm neu maent ar gael ar-lein yn: <https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/trwyddedu/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/>.

Rhaid i wrthwynebiadau i'r cynigion neu sylwadau arnynt, ynghyd â'r seiliau dros eu gwneud, gael eu hanfon mewn ysgrifen ac wedi'u cyfeirio at y sawl sy'n llofnodi isod yn y cyfeiriad isod, neu drwy'r ebost at Jane.Dessent@bridgend.gov.uk, erbyn **14/04/2023**. Os yw'n anodd ichi ymateb mewn ysgrifen, neu os oes amnoch angen yr hysbysiad mewn fformat arall, er enghraifft print brasach, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol yn y cyfeiriad isod neu drwy'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Ffôn: 01656 643643 cyf cyfreithiol TRA001-1322/JPD. Sylwch y gall pob sylw a ddaw i law gael ei ystyried yn gyhoeddus gan y Cyngor ac y gellid trefnu bod cynnwys unrhyw sylwadau [ynghyd ag enw a chyfeiriad y sawl a'u cyflwynodd] ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd. Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg ac ni fydd cyfathrebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

ATODLEN
GWAHARDD LWYTHO A DADLWYTHO UNRHYW BRYD

Llynfi Road, Maesteg

- (i) Ar ei hochr ddwyreiniol tua'r gogledd o'i chyffordd ag Upper Street a'r ffordd ddiennw oddi ar Llynfi Road, Maesteg, tua'r gogledd am bellter o ryw 65 metr (71 llath).
- (ii) Ar ei hochr ddwyreiniol o bwynt rhyw 83 metr (91 llath) tua'r gogledd o'i chyffordd ag Upper Street a'r ffordd ddiennw oddi ar Llynfi Road, Maesteg, tua'r gogledd am bellter o ryw 20 metr (22 llath).

K. Watson

Dyddiedig: 16/03/2023

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.

TRA001-1322 N1